

Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn Answers to Questions not reached in Plenary

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

Cynnwys Contents

- 1 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio
Questions to the Minister for Social Justice and Regeneration
- 1 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth
Questions to ask the Minister for Economic Development and Transport
- 3 Cwestiynau i'r Trefnydd ar ei Chyfrifoldebau heblaw am Fusnes
Questions to the Business Minister on her Responsibilities other than for Business

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio Questions to the Minister for Social Justice and Regeneration

Cynlluniau i Wella Tai yng Ngwent Initiatives to Improve Housing in Gwent

Q9 Lynne Neagle: Will the Minister provide an update on Welsh Assembly Government initiatives to improve housing in Gwent? OAQ0450(SJR) *Transferred for written answer.*

The Minister for Social Justice and Regeneration (Edwina Hart): Our national housing strategy sets out our plans for improving the housing stock, including our Welsh housing quality standard. We are encouraging local authorities to take advantage of the opportunities that they now have to develop more flexible strategies for housing renewal, and to develop plans to meet the quality standard by 2012.

C9 Lynne Neagle: A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau Llywodraeth Cynulliad Cymru i wella tai yng Ngwent? OAQ0450(SJR) *Trosglwyddwyd i'w ateb yn ysgrifenedig.*

Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio (Edwina Hart): Mae ein strategaeth dai genedlaethol yn nodi ein cynlluniau ar gyfer gwella'r stoc dai, gan gynnwys ein safon ansawdd tai Cymru. Yr ydym yn annog awdurdodau lleol i fanteisio ar y cyfleoedd sydd ganddynt bellach i ddatblygu strategaethau mwy hyblyg ar gyfer adnewyddu tai, ac i ddatblygu cynlluniau i gyrraedd y safon ansawdd erbyn 2012.

*Atebwyd y cwestiynau eraill yn y Cyfarfod Llawn.
The remaining questions were answered in Plenary.*

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth Questions to ask the Minister for Economic Development and Transport

*Tynnwyd cwestiynau 10, OAQ0492(EDT), ac 11, OAQ0491(EDT), yn ôl.
Questions 10, OAQ0492(EDT), and 11, OAQ0491(EDT), withdrawn.*

Y Diwydiant Adeiladu yn y Gogledd
The Construction Industry in North Wales

Q12 Carl Sargeant: Will the Minister make a statement on the construction industry in north Wales? OAQ0538(EDT)

C12 Carl Sargeant: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y diwydiant adeiladu yn y Gogledd? OAQ0538(EDT)

The Minister for Economic Development and Transport (Andrew Davies): The construction industry in north Wales has seen employment growth since 2001 of over 17 per cent. There were 25,000 people in employment in 2004, up from 21,000 in 2001.

Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth (Andrew Davies): Mae'r diwydiant adeiladu yng ngogledd Cymru wedi gweld twf cyflogaeth ers 2001 o dros 17 y cant. Yr oedd 25,000 yn gyflogedig yn 2004, wedi codi o 21,000 yn 2001.

Y Bathdy Brenhinol yn Llantrisant
The Royal Mint in Llantrisant

Q13 Leanne Wood: Will the Minister make a statement on any recent discussions he has held with the Royal Mint in Llantrisant? OAQ0517(EDT)

C13 Leanne Wood: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am unrhyw drafodaethau diweddar a gafodd gyda'r Bathdy Brenhinol yn Llantrisant? OAQ0517(EDT)

Andrew Davies: My officials are in contact with the Royal Mint. I am aware of ongoing work to change its status from a trading fund into a Government-owned company. That decision is a non-devolved issue resulting from a review carried out by the Treasury. I understand that employees are being kept fully informed.

Andrew Davies: Mae fy swyddogion mewn cyswllt â'r Bathdy Brenhinol. Yr wyf yn ymwybodol fod gwaith ar droed i newid ei statws o fod yn gronfa fasnachu i fod yn gwmni sy'n eiddo i'r Llywodraeth. Mater sydd heb ei ddatganoli yw'r penderfyniad hwn yn sgîl adolygiad a wnaed gan y Trysorlys. Yr wyf yn deall bod y gweithwyr yn derbyn gwybodaeth lawn drwy'r amser.

Cynlluniau i Ddatblygu Parc Genynnau ym Mae Caerdydd
Plans to Develop a Gene Park in Cardiff Bay

Q14 Lorraine Barrett: Will the Minister make a statement on plans to develop a gene park in Cardiff bay? OAQ0506(EDT)

C14 Lorraine Barrett: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynlluniau i ddatblygu parc genynnau ym mae Caerdydd? OAQ0506(EDT)

Andrew Davies: It is not presently considered viable by Cardiff University and its partners in the Wales Gene Park to relocate research facilities to Roath Basin, but there are firm plans for a development, focused chiefly on life sciences, to be built there around a proposed new technium.

Andrew Davies: Ar hyn o bryd, nid yw Prifysgol Caerdydd a'i phartneriaid ym Mharc Genynnau Cymru yn gweld bod adleoli cyfleusterau ymchwil yn Noc y Rhath yn ymarferol, ond mae cynlluniau pendant ar gyfer adeiladu yno, o gwmpas technium newydd sydd yn yr arfaeth, ddatblygiad fydd yn canolbwyntio'n bennaf ar wyddorau bywyd.

Gwella Economi Powys Improving the Economy of Powys

Q15 Glyn Davies: What plans does the Minister have to improve the economy of Powys? OAQ0548(EDT)

C15 Glyn Davies: Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i wella economi Powys? OAQ0548(EDT)

Andrew Davies: The Welsh Assembly Government is working in partnership with its agencies, local authorities and other public and private bodies to improve the economic prosperity of the whole of Wales, including Powys.

Andrew Davies: Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithio mewn partneriaeth â'i hasiantaethau, awdurdodau lleol a chyrrff cyhoeddus a phreifat eraill i wella ffyniant economaidd Cymru gyfan, gan gynnwys Powys.

Cwestiynau i'r Trefnydd ar ei Chyfrifoldebau heblaw am Fusnes Questions to the Business Minister on her Responsibilities other than for Business

Polisiau sy'n Cefnogi Pobl Anabl Policies Supporting Disabled People

Q7 Lynne Neagle: Will the Minister make a statement on Welsh Assembly Government policies supporting disabled people in Wales? OAQ0146(BM) *Transferred for written answer.*

C7 Lynne Neagle: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar bolisiau Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n cefnogi pobl anabl yng Nghymru? OAQ0146(BM) *Trosglwyddwyd i'w ateb yn ysgrifenedig.*

The Business Minister (Jane Hutt): The Welsh Assembly Government's policies are underpinned by our vision of supporting people to live healthy and independent lives, and of promoting equality of opportunities for all. For example, the Welsh Assembly Government recently provided £11.5 million of European funding to combat inequality in the labour market under the EQUAL funding programme.

Y Trefnydd (Jane Hutt): Mae polisiau Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'u seilio ar ein gweledigaeth sef cefnogi pobl wrth iddynt fyw'n iach ac yn annibynnol, a hybu cyfleoedd cyfartal i bawb. Yn ddiweddar, er enghraifft, darparodd Llywodraeth Cynulliad Cymru £11.5 miliwn o gyllid Ewropeaidd i drechu anghydraddoldeb yn y farchnad lafur dan raglen gyllido EQUAL.

Polisi Cydraddoldeb Equality Policy

Q10 Helen Mary Jones: Will the Minister make a statement on the Government's policy on equality? OAQ0148(BM) *Transferred for written answer.*

C10 Helen Mary Jones: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar bolisi'r Llywodraeth ar gydraddoldeb? OAQ0148(BM) *Trosglwyddwyd i'w ateb yn ysgrifenedig.*

Jane Hutt: Our policy is to mainstream equality to ensure that equality of opportunity principles and approaches are integrated and embedded into the every-day work of the Assembly. I will be providing an update to Committee on Equality of Opportunity on 24 November on the progress of mainstreaming

Jane Hutt: Ein polisi ni yw prif-ffrydio cydraddoldeb i sicrhau integreiddio egwyddorion ac agweddau cyfle cyfartal yng ngwaith bob dydd y Cynulliad. Ar 24 Tachwedd, byddaf yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf ar y cynnydd a wneir wrth brif-ffrydio cydraddoldeb ar gyfer y Pwyllgor

equality.

Cyfle Cyfartal.

**Cydraddoldeb yn y Gweithle
Equality in the Workplace**

Q11 Lynne Neagle: Will the Minister make a statement on equality in the workplace? OAQ0145(BM) *Transferred for written answer.*

C11 Lynne Neagle: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gydraddoldeb yn y gweithle? OAQ0145(BM) *Trosglwyddwyd i'w ateb yn ysgrifenedig.*

Jane Hutt: The Welsh Assembly Government is an equal opportunities employer, committed to offering equality of opportunity to all. We are also a key partner in the Close the Pay Gap campaign, addressing the gender pay gap in the workplace.

Jane Hutt: Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gyflogwr cyfle cyfartal, wedi'i hymrwymo i gynnig cyfle cyfartal i bawb. Yr ydym hefyd yn bartner pwysig yn yr ymgyrch Cau'r Bwlch Cyflog sydd yn mynd i'r afael â'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn y gweithle.

*Atebwyd y cwestiynau eraill yn y Cyfarfod Llawn.
The remaining questions were answered in Plenary.*